Dinas a Sir Abertawe

# Cofnodion Cyfarfod y Pwyllgor Safonau

**Cyfarfod Aml-Leoliad - Ystafell Gloucester, Neuadd y Ddinas / MS Teams**

**Dydd Gwener, 25 Tachwedd 2022 am 9.35 am**

**Yn Bresennol**:

| **Y Cynghorydd(wyr)** | **Y Cynghorydd(wyr)** | **Y Cynghorydd(wyr)** |
|---|---|---|
| O G James | M B Lewis | |

**Cynrychiolydd Cyngor Cymuned/Tref:**
Y Cynghorydd C Rabaiotti

| **Aelodau Cyfetholedig(wyr)** | **Aelodau Cyfetholedig(wyr)** | **Aelodau Cyfetholedig(wyr)** |
|---|---|---|
| Michaela Jones | Janet Pardue-Wood | Margaret Williams |
| Mike Lewis | Mark Rees | |

**Swyddog(ion)**

| | |
|---|---|
| Huw Evans | Pennaeth y Gwasanaethau Democrataidd |
| Allison Lowe | Swyddog y Gwasanaethau Democrataidd |
| Debbie Smith | Dirprwy Brif Swyddog Cyfreithiol |

**Ymddiheuriadau am absenoldeb**
Y Cynghorydd(wyr): L G Thomas

---

## 21 Ethol Cadeirydd.

**Penderfynwyd** ethol Mike Lewis, Aelod Annibynnol, yn Gadeirydd.

**Bu'r Cadeirydd, Mike Lewis, yn llywyddu**

## 22 Ethol is-gadeirydd.

**Penderfynwyd** ethol Janet Pardue-Wood, Aelod Annibynnol, yn Is-gadeirydd.

## 23 Datgeliadau o fuddiannau personol a rhagfarnol.

Yn unol â'r Côd Ymddygiad a fabwysiadwyd gan Ddinas a Sir Abertawe, ni ddatganwyd unrhyw fuddiannau.

**24 Croeso.**

Croesawodd y Cadeirydd Mark Rees, Aelod Annibynnol, i'w gyfarfod cyntaf o’r Pwyllgor Safonau.

**25 Gwahardd y cyhoedd.**

Gofynnwyd i'r pwyllgor wahardd y cyhoedd o'r cyfarfod er mwyn iddo ystyried yr eitem fusnes/eitemau busnes a nodwyd yn argymhellion yr adroddiad ar y sail ei fod yn debygol o ddatgelu gwybodaeth eithriedig fel y nodir ym mharagraff gwahardd 12A o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 fel y'i diwygiwyd gan Orchymyn Llywodraeth Leol (Mynediad at Wybodaeth) (Amrywiad) (Cymru) 2007 mewn perthynas ag eitemau busnes a nodir yn yr adroddiad.

Ystyriodd y Pwyllgor Brawf Budd y Cyhoedd wrth benderfynu a ddylid gwahardd y cyhoedd o'r cyfarfod ar gyfer yr eitem fusnes/eitemau busnes lle'r oedd Prawf Budd y Cyhoedd yn berthnasol fel y nodir yn yr adroddiad.

**Penderfynwyd** y dylid gwahardd y cyhoedd ar gyfer yr eitemau busnes canlynol.

**(Sesiwn Gaeëdig)**

**26 Apelio'r Polisi Ymddygiad Afresymol gan Gwsmeriaid.**

Cyflwynodd y Dirprwy Swyddog Monitro adroddiad i ystyried a ddylid caniatáu presenoldeb personol ar gyfer apêl o dan y Polisi Ymddygiad Afresymol Cwsmeriaid.

**Penderfynwyd** y bydd y Swyddog Monitro'n ysgrifennu at yr apelydd eto, gan ofyn am ymateb i ohebiaeth flaenorol o fewn cyfnod o 2 wythnos.

Daeth y cyfarfod I ben am 9.52 am

**Cadeirydd**